

Siarter Grantwr



Siarter Grantwr

Yn SP Energy Networks rydym yn ymroddedig i ofalu am y rhwydwaith eang o geblau ac is-orsafoedd, er mwyn iddynt barhau i gyflenwi trydan yn effeithiol ac effeithlon.

Yn sgîl y galw cynyddol a roddir ar ein rhwydwaith, rydym yn cynllunio ymlaen llaw gydag ymroddiad i wario biliynau o bunnoedd yn uwchraddio'r rhwydwaith.

Byddwn yn parhau i arloesi gyda datblygiadau newydd ac yn defnyddio ein harbenigedd i helpu pawb i ymateb i'r her sy'n cael eu cyflwyno gan dargedau carbon isel y llywodraeth.

Rydym yn cydnabod y gallai'r gwaith hwn effeithio arnoch chi a'ch tir, ac mae'n bwysig ein bod yn cynghori ynglŷn â'r hyn y gallwch ei ddisgwyl gennym.



➤➤ Mynediad i'ch Tir

O bryd i'w gilydd, bydd angen i ni gael mynediad i'ch tir i archwilio, cynnal a chadw, atgyweirio, adnewyddu neu gyfnewid ein cyfarpar. Yn yr amgylchiadau hyn:

- Ni fyddwn yn ceisio cael mynediad mewn cerbydau i'ch eiddo, heb roi rhybudd ymlaen llaw i chi, ac eithrio mewn achos o nam neu argyfwng.
- Byddwn yn ceisio rhoi 7 niwrnod o rybudd i chi ar gyfer gwaith adnewyddu neu adeiladu, ac eithrio mewn achos o nam neu argyfwng.
- Pan na fydd yn ymarferol i ni roi 7 niwrnod o rybudd i chi, byddwn yn cysylltu â chi cyn gynted â phosibl, a bydd yr hysbysiad yn un ysgrifenedig neu lafar.
- Bydd gan ein cyflogeion a'n contractwyr fodd adnabod. Byddant yn dangos hwn i chi ar gais.
- Pan fydd yn briodol, a'ch bod wedi gofyn am hynny, bydd rhestr o amodau yn cael ei chwblhau cyn cael mynediad, a rhoddir copi o'r rhestr hon i chi.
- Trefnir y mynediad dros lwybrau y cytunwyd arnynt, a bydd unrhyw wyriadau materol yn cael eu cytuno gyda chi cyn cael mynediad.
- Pan fydd angen, a phan fydd yn rhesymol gwneud hynny, byddwn yn marcio neu'n ffensio llwybrau mynediad.
- Byddwn yn sicrhau mai'r isafswm rhesymol ymarferol o gerbydau gwaith fydd yn cael mynediad i'ch tir, a bydd y nifer yn briodol ar gyfer y dasg.
- Ni fydd mynediad gwaith i'ch tir yn cael ei rwystro'n sylweddol a byddwn yn trafod gyda chi sut i leihau effaith y gwaith ar eich tir.



- Os bydd angen i ni uwchraddio unrhyw lwybrau mynediad er mwyn hwylyso ein gweithrediadau, byddwn yn cytuno ar hynny gyda chi a ni fydd yn talu am y gwaith hwn.
- Bydd giatiau'n cael eu gadael fel y byddant yn cael eu canfod. Bydd giatiau'n cael eu gadael ar gau ac wedi'u cloi, pan fydd angen.
- Byddwn yn gosod hysbysebion yn y wasg leol/genedlaethol cyn y bydd hofrennydd yn cynnal archwiliadau o linellau uwchben. Byddwn yn ceisio osgoi hedfan yn agos at dda byw ac adeiladau ffermydd, ac eithrio mewn achos o nam neu argyfwng.
- Byddwch yn ein hysbysu yn ysgrifenedig os bydd unrhyw gyfyngiadau neu faterion sy'n gysylltiedig â mynediad i'ch eiddo, neu o'ch eiddo, er mwyn rhwystro unrhyw ddifrod posibl.
- Byddwn yn dilyn argymhellion presennol y Llywodraeth, ac unrhyw geisiadau rhesymol ychwanegol y Grantwr, o ran cynnal bioddiogelwch da.

➤➤ Gwaith ar eich Tir

Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd angen mynediad i'ch tir ar gyfer archwiliadau neu waith cynnal a chadw arferol sy'n annhebygol o achosi anghyfleustra neu ddifrod ffisegol mawr. Fodd bynnag, bydd achlysuron pan fydd angen gwneud gwaith mwy sylweddol, yn cynnwys gwaith adeiladu, gosod dargludyddion, neu adnewyddu ynysyddion a ffitiadau. O bryd i'w gilydd, bydd angen gwneud adferol i bolion, tyrau dur a seiliau. Pan fydd angen gwneud gwaith o'r fath:

- Yn ystod camau cynllunio unrhyw brosiect, mae'n bosibl y bydd angen mynediad i'ch tir er mwyn cynnal arolygon/ymchwiliadau safle amrywiol. Byddwn yn ceisio cytuno ar amodau'r mynediad a darparu hysbysiad ymlaen llaw i chi am unrhyw waith o'r fath.
- Byddwn yn sicrhau bod y cyfarpar ar eich tir yn cael ei adeiladu a'i gynnal a'i gadw i'r safon sy'n ofynnol drwy statud ar gyfer trosglwyddyddion neu ddsbarthwr trydan.
- Bydd unrhyw linellau uwchben newydd yn cael eu gosod ar neu uwchben y lefel glirio ofynnol statudol, ar ôl trafod hynny gyda pherchennog y tir.
- Bydd y gwaith yn cael ei wneud mewn ffordd ddiogel, yn nhermau Deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch berthnasol.
- I'r graddau y bydd yn ymarferol gwneud hynny, bydd gwaith yn cael ei gynllunio er mwyn lleihau ymyrraeth ddiangen gyda gweithrediadau ffermio, chwaraeon, coedwigaeth a gweithrediadau rheoli tir eraill.
- Pan fydd yn rhesymol ac yn angenrheidiol gwneud hynny, byddwn yn gosod ffens o amgylch yr ardaloedd gwaith cyn dechrau ar y gwaith, er mwyn osgoi niwed i dda byw neu i rwystro da byw rhag crwydro.

- Ni fydd walïau, ffensys na gwrychoedd sy'n eiddo i chi yn cael eu symud heb ymgynghori a chytuno â chi ymlaen llaw, ac eithrio mewn achos o argyfwng. Lle bydd yn ymarferol, yn dilyn cais gennyh chi, byddwn yn gosod rhwystrau dros dro cyn symud walïau, ffensys neu wrychoedd er mwyn rhwystro da byw rhag crwydro.
- Ni fydd unrhyw gŵn yn dod ar eich tir.
- Cymerir gofal arbennig wrth weithredu ar neu ger ardaloedd sydd â Chyfyngiadau Statudol perthnasol, y byddwch chi wedi ein hysbysu yn eu cylch.
- Byddwn yn rhoi gwybod i chi a'r awdurdod priodol os byddwn yn canfod unrhyw ffosilau neu weddillion archeolegol a'r awdurdod priodol. Ni fyddwn yn hawlio perchenogaeth am unrhyw ffosil.
- Byddwn yn cymryd camau rhesymol i atal difrod neu ymyrraeth â hawliau pysgota a chwaraeon.
- Aceithrio mewn achos o nam neu argyfwng, ni fydd coed yn cael eu tocio na'u torri heb ganiatâd ymlaen llaw. Bydd unrhyw goed sy'n cael eu torri yn cael eu gadael yn daclus ar eich tir, wedi'u hasglodi neu os bydd yn rhesymol yn yr amgylchiadau, eu symud oddi ar y tir, drwy gytundeb gyda'r Grantwr a/neu eu cynrychiolydd penodedig.
- Bydd yr ardaloedd gwaith yn cael eu cynnal mor lân a thaclus ag y bydd yn rhesymol yn ymarferol. Ar ôl cwblhau'r gwaith, bydd unrhyw ddeunyddiau dros ben a sbwriel yn cael eu cludo oddi ar eich eiddo.
- Byddwn yn cydymffurfio â phob rhwymedigaeth neu gyfyngiad statudol perthnasol, sy'n berthnasol i SP Energy Networks o ran y gwaith ar eich tir.

➤➤ Difrod / Iawndal

Byddwn yn cynllunio ein gwaith er mwyn osgoi unrhyw ymyrraeth ddiangen i'ch gweithgareddau rheoli tir. Dylech roi gwybod i ni am unrhyw gynlluniau rheoli tir hysbys, ardaloedd sensitif, datblygiadau tir arfaethedig, peryglon ac unrhyw gyfyngiadau neu faterion a allai effeithio ar fynediad i'n gwaith ar eich tir.

Byddwn ni'n gyfrifol am wneud iawn am unrhyw ddifrod ffisegol i'ch tir a/neu setlo unrhyw hawliadau rhesymol am iawndal am golledion yn sgîl gwaith adeiladu, gweithredu, archwilio, cynnal a chadw neu atgyweirio ein hoffer ar eich tir. Os na ellir gwneud iawn am ddifrod, byddwch yn derbyn iawndal am y difrod ffisegol.

- Byddwn yn cymryd camau rhesymol i atal difrod ffisegol i'ch tir a byddwn yn gyfrifol am ddifrod ffisegol i'ch tir sy'n deillio'n uniongyrchol o gamau gweithredu ein cyflogaion, asiantwyr neu contractwyr.
- Byddwn yn gwneud iawn am ddifrod i ddraeniau tir, o ganlyniad i'n gwaith, o fewn 5 mlynedd i'n gwaith. Mae'n rhaid i chi ein hysbysu ynglŷn ag unrhyw ddifrod o fewn 5 mlynedd i'r gwaith adfer.
- Telir iawndal fel arfer am golledion gwirioneddol yn sgîl difrod gwynt ar eich tir o fewn 5 mlynedd ar ôl i ni dorri unrhyw goed.
- Os bydd ein gweithgareddau ar eich tir yn arwain at ddiffyg cydymffurfiaeth ar eich rhan chi, ag unrhyw ofynion statudol neu amod unrhyw gynllun rheoli tir sy'n cael ei ariannu, byddwn yn talu iawndal i chi am unrhyw golledion neu gosbau a fydd yn cael eu hachosi'n uniongyrchol gan ein gweithredoedd ni, ar yr amod eich bod yn rhoi gwybod i ni ymlaen llaw am unrhyw ofynion statudol neu gynlluniau rheoli tir hysbys.



- Bydd waliau, gatiâu, ffensys neu wrychoedd sy'n cael eu difrodi neu eu symud er mwyn hwyluso mynediad, yn cael eu hadfer i'r un cyflwr, mewn cytundeb â chi.
- Byddwn yn talu'r ffioedd rhesymol a phriodol am asiant proffesiynol sy'n cael ei gyflogi gennych chi i drafod a setlo hawliad am ddifrod yn unol â Graddfa Ffioedd Scottish Power.
- Byddwn yn ymdrin â hawliadau difrod yn brydlon, ar ôl i ni dderbyn yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnom gennych chi. Gwneir y taliadau o fewn 28 diwrnod ar ôl i ni dderbyn derbyniad ysgrifenedig gennych chi am unrhyw lefel o daliad.
- Os na fydd yn bosibl sicrhau cytundeb ar yr iawndal, bydd trydydd parti annibynnol yn cael ei benodi yn nhermau'r cytundeb ffurfiol rhyngom ni a chi.

➤➤ Cyfarpar Presennol

Fel rhan o'n hymroddiad i chi, rydym yn cydnabod y bydd gennym berthynas barhaus gyda chi tra bydd ein cyfarpar ar eich tir. Os oes gennych ymholiad ynglŷn â phresenoldeb cyfarpar a'u heffaith ar y defnydd o'ch tir, dylech gysylltu â'ch Swyddog Fforddfraint lleol.

Byddwn yn darparu cynllun, ar gais, o'r offer a'r cyfarpar presennol sydd ar neu o dan eich tir.

Dylai dargludyddion uwchben 11kV a 33kV presennol fod ar isafswm uchder o 5.2 o fetrau, fodd bynnag, efallai y bydd achosion pan fydd yr uchder yn is na hyn. Os oes gennych unrhyw ymholiadau penodol ynglŷn ag isafswm uchder dargludyddion, neu os ydych yn credu bod y dargludyddion yn is na hyn, yna cysylltwch â ni a byddwn yn trefnu i gadarnhau hynny. Os ydych yn pryderu am effaith ffisegol dargludyddion, cysylltwch â'ch Swyddog Fforddfraint. Dylech ystyried presenoldeb dargludyddion uwchben ar draws eich tir cyn defnyddio unrhyw beiriannau.

Pan fyddwch yn dymuno datblygu tir neu newid lefelau'r tir ger y llinell uwchben, dylech ddarllen Nodiadau Canllaw'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch "GS6 - Avoidance of Danger from Overhead Lines". Hefyd, mae gennych gyfrifoldeb o dan Electricity Safety Quality and Continuity Regulations 2002 (fel y'i diwygiwyd), Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 (fel y'i diwygiwyd) a'r Occupiers Liability (Scotland) Act 1960. Os oes gennych unrhyw ymholiadau eraill ynglŷn â'ch cyfrifoldebau, byddwn yn eich argymhell i ofyn am gyngor.

Taliadau Fforddfraint

Mae lefelau canllaw ar gyfer taliadau Fforddfraint yn destun trafodaeth gydag Undebau Amaethwyr Cymru, yr Alban a Lloegr, Undeb Amaethwyr Cymru, Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad a Thir ac Ystadau'r Alban.

Mae'r taliadau yn cael eu hadolygu'n flynyddol, ac maent yn seiliedig ar y math a maint y strwythur a dosbarthiad y tir. Fel arfer, mae'r cyfraddau yn cynnwys dwy elfen:

- Rhent – sy'n daladwy i berchennog y tir
- Lawndal – sy'n daladwy i'r deiliad am ymyrraeth â'r defnydd tir.

Mae cyfraddau arbennig yn berthnasol i fathau amrywiol o ddulliau trin tir dwys a gwneir taliadau ychwanegol ar gyfer llinellau niferus.

Os ydych yn credu nad yw'r taliad fforddfraint yn eich digolledu'n ddigonol gallwch gysylltu â ni a byddwn yn gwerthuso eich achos ar sail achos unigol.

Mae manylion y taliadau rhent ac iawndal cyfredol, o dan delerau'r cytundeb fforddfraint, ar gael drwy ddefnyddio'r manylion cyswllt yn y daflen hon.



Ein Hymrwymiad Ni

Mae llinellau uwchben a cheblau dan y ddaear, sy'n cael eu cynnal a'u cadw a'u gweithredu gan y cwmnïau trwyddedig a rheoledig, sy'n ffurfio rhan o SP Energy Networks yn effeithio ar dir y mae miloedd o unigolion yn berchen arnynt ac yn byw arnynt,

Rhoddir yr hawliau ar gyfer y cyfarpar hwn yn aml drwy Gydsyniad Fforddfraint, sef cytundeb personol rhyngom ni a'r Grantwr neu drwy Weithred Hawddfraint (hawl parhaol). Mae'r dogfennau ffurfiol hyn yn nodi'r hawliau a'r dyletswyddau amrywiol yn y berthynas rhyngom ni a'r Grantwr. Rydym wedi ein rhwymo'n gyfreithiol i gydymffurfio â thelerau'r cytundebau ffurfiol hyn.

Mae'n bwysig ein bod yn sefydlu ac yn cynnal perthynas dda gyda phob un o'n Grantwyr, ac rydym yn ymroddedig i ymdrin yn brydlon ag ymholiadau neu broblemau sy'n gysylltiedig â chytundebau gyda ni neu waith ar dir Grantwyr.

Nid yw'r ddogfen hon yn ddogfen gyfreithiol ac nid yw'n rhoi unrhyw hawliau, dyletswyddau na rhwymedigaethau sydd wedi'u rhwymo mewn cyfraith. Fodd bynnag, mae'r Siarter yn nodi canllawiau am ein hymroddiad i Grantwyr, ac mae wedi'i pharatoi mewn ymgynghoriad ag Undebau Amaethwyr Cenedlaethol Cymru, yr Alban a Lloegr, Tir ac Ystadau'r Alban a'r Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad. Mae'r Siarter hon hefyd yn cynnwys contractwyr enwebedig sy'n gweithredu ar ein rhan. Rydym yn gyfrifol am, a byddwn yn sicrhau bod, isgontractwyr enwebedig yn ymwybodol o'r Siarter hon, a'u bod yn cydymffurfio â hi.



Mae'r tudalennau canlynol yn trafod:

- Mynediad i'ch tir
- Gwaith ar eich tir
- Difrod/Iawndal
- Cyfarpar Presennol
- Taliadau Fforddfraint
- Cyfathrebu/Cysylltu

Cysylltwch â Ni

Ffoniwch ni os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon ynglŷn â:

- Llinellau trydan, ceblau neu gyfarpar arall ar eich tir.
- Lleoliad cyfarpar ar dir, yn arbennig os ydych yn cynllunio unrhyw waith neu ddatblygiad ar eich tir ger ein cyfarpar.

Diogelwch – Os bydd unrhyw ran o beiriant yn dod i gysylltiad â phellter fflachio llinell, gall y canlyniadau fod yn ddifrifol iawn, a gallai achosi marwolaeth. I gael gwybodaeth ddiogelwch ar ddefnyddio peiriannau neu offer ger llinellau trydan, ewch i www.spenergynetworks.com/safety

Er mwyn ein helpu i gynnal ein cofnodion, a fyddech crystal â'n hysbysu ynglŷn ag unrhyw newidiadau perchenogaeth/meddiannaeth neu newid yn nefnydd y tir dan sylw.

Ar gyfer yr Alban

Ffoniwch 0845 301 0014

E-bost

wayleavesnorth@sppowersystems.com

Ysgrifennwch at

Wayleaves
SP Energy Networks
55 Fullerton Drive
Cambuslang
Glasgow
G32 8FA

Ar gyfer Cymru a Lloegr

Ffoniwch 0845 030 3053

E-bost

wayleavessouth@sppowersystems.com

Ysgrifennwch at

Wayleaves
SP Energy Networks
Ffordd Wrecsam
Pentre Bychan
Wrecsam
LL14 4DU

I gael gwybodaeth bellach, ewch i www.spenergynetworks.co.uk/wayleaves

